**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/406/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio bod Llywodraeth y DU yn arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd Gweinidogion ledled y DU oedi o 12 mis i gyflwyno'r drefn Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr newydd ar gyfer pecynnu. Er mwyn ymdrin â'r bwlch a fyddai fel arall yn bodoli rhwng y targedau a osodwyd o dan y cynllun pecynnu presennol, sy'n dod i ben yn 2023 a chyflwyno'r drefn Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr newydd, mae cytundeb yn cael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwr (Gwastraff Pecynnu) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2023. Bydd yr offeryn uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 50 a pharagraffau 1(1) a 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 (O.S. 2007/871). Bydd rheoliadau 2023 yn cyflwyno'r targedau cyfrifoldeb cynhyrchwyr pecynnu presennol ar gyfer 2023 (ac eithrio pren a fydd yn cynyddu o 35% i 42%). Mae'r Rheoliadau hynny'n gorfodi cynhyrchwyr deunydd pacio, rhwymedigaethau i ailgylchu gwastraff pecynnu er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu cyffredinol ac ailgylchu sy'n benodol i ddeunydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod targed ailgylchu cyffredinol o 80% a thargedau ailgylchu sy'n benodol i ddeunydd ar gyfer gwydr (82%), plastig (61%), alwminiwm (69%), dur (87%), papur/bwrdd (83%) a phren (42%) yn ogystal â tharged ail-doddi penodol ar gyfer gwydr (82%).

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.